

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

21 Chwefror 2020

Ystafell y Bwrdd, Canolfan Ddelweddu, Prifysgol Aberystwyth

10.00 – 1.00

SESIWN AGORED: 10.30 – 1.00

Presennol:

Meri Huws (Is Lywydd a Chadeirydd)
Eleri Twynog Humphries
Gwilym Dyfri Jones
Steve Williams
Richard Houdmont
Quentin Howard

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Hugh Thomas
Yr Arglwydd Aberdâr
Iwan Davies
Liz Siberry

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

Staff eraill:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodion)
---------------	--

Sylwedyddion:

Anwen Jones	Darpar Ymddiriedolwr
Gwenllian Lansdown Davies	Darpar Ymddiriedolwr
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Dylan Jones	Cyngor Partneriaeth

1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, ac yn arbennig Gwenllian Lansdown Davies ac Anwen Jones, dwy o'r Ymddiriedolwyr newydd a benodwyd ym mis Rhagfyr, oedd yn mynychu'r cyfarfod fel sylwedyddion.

Nododd y Cadeirydd nad oedd neb o Cymal yn medru bod yn bresennol, ond fe'u gwahoddwyd. Hysbyswyd yr Ymddiriedolwyr gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd mai Catrin Hughes fyddai ein swyddog noddi o hyn allan, yn dilyn ailstrwythuro dyletswyddau o fewn CyMAAL, a dymunwyd yn dda i Catrin yn ei swydd newydd.

1.2 Ymddiheuriadau

Rhodri Glyn Thomas, Mike Cavanagh, Carl Williams, Elin Royles (darpar Ymddiriedolwr), Nicola Guy a Catrin Hughes

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd JTCT, aelod o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn Gadeirydd WHELP ac yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Richard Houdmont fudd fel tiwtor cysylltiol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell yn Oriel Glan-yr-Afon.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 28 Tachwedd a 29 Tachwedd a thrafod materion sy'n codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 28 Tachwedd fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 29 Tachwedd fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd, gydag un sylw, sef fod angen cynnwys buddiant Steve Williams fel Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Materion yn codi o'r cofnodion

Proses benodi Ymddiriedolwyr newydd

Cwblhawyd proses benodi yn ystod mis Rhagfyr 2019, yn dilyn ymgyrch lwyddiannus dros ben. Penodwyd tair o aelodau newydd - Gwenllian Lansdown Davies, Anwen Jones ac Elin Royles,

a byddant yn cychwyn ar eu cyfnod o bedair blynedd ar 1 Mawrth 2020. Roedd y Panel wedi gobeithio penodi pedwerydd aelod i gymryd lle aelod y bydd ei gyfnod gwasanaeth yn dirwyn i ben ym mis Hydref 2020, ond ni lwyddwyd i wneud hynny. Bydd proses benodi arall felly yn cael ei rhedeg yn ystod 2020.

Gŵyl y Gelli

Mi fydd gan y Llyfrgell bresenoldeb eleni yng Ngŵyl y Gelli am y tro cyntaf yn ei hanes. Bwriedir mynd â llun eiconig Salem i'w arddangos yn yr Ŵyl, ac mi fydd Peter Lord yn cyflwyno darlith ar Salem yn ei gyd-destun hanesyddol. Mae swyddogion yr Ŵyl yn awyddus iawn i ddatblygu perthynas a chydweithio gyda'r Llyfrgell, ac mae trafodaethau mewnol yn digwydd yn y Llyfrgell yn barod ynghylch ein presenoldeb yn yr Ŵyl yn 2021.

Mi fydd Salem a Chwpan Nanteos hefyd yn cael eu harddangos ar faes yr Eisteddfod yn Nhregaron ym mis Awst.

1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 28 Tachwedd

Cyfan wedi eu gweithredu neu ar yr agenda ar gyfer heddiw.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Cynllun Pensiwn

2.1.1 Symud o gynllun cyflog terfynol i gynllun CARE

Trafodwyd y mater yma yn y sesiwn gaeedig, a bydd yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol i'w drafod yn fanylach.

2.1.2 Penodi Ymddiriedolwyr i Fwrdd y Cynllun Pensiwn

Hysbysodd David Michael yr Ymddiriedolwr bod angen penodi dau/dwy Ymddiriedolwr newydd i Fwrdd y Cynllun Pensiwn, ac y byddai angen enwebiadau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ebrill.

2.2 Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu

Hysbysodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yr Ymddiriedolwyr fod y Cynllun wedi ei drafod yn ystod y cyfarfod monitro chwarterol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru'n ddiweddar, a'u bod yn hapus iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni eleni. Mae cyswllt rheolaidd rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru, ac mi fydd yr Is Lywydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yn

cyfarfod y Dirprwy Weinidog ar 24 Chwefror. Derbyniwyd yr adroddiad gan yr Ymddiriedolwyr ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

2.3 Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy

Cyflwynodd Owain Roberts bapur yr oedd wedi ei ddrafftio i ddiweddarau'r Ymddiriedolwyr ar y pwnc yma.

Ym mis Tachwedd 2019, hysbysodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yr Ymddiriedolwyr bod y Llyfrgell, y Comisiwn Brenhinol a Phrifysgol Aberystwyth mewn trafodaethau gyda'r *Arts and Humanities Research Council (AHRC)* ag *United Kingdom Research and Innovation (UKRI)* ynglyn â chyflwyno cais am gyllid werth tua £30m dros 10 mlynedd i sefydlu Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy yng Nghymru ar gyfer y celfyddydau, dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Mae'r papur yma'n egluro beth mae'r cynllun yn ei olygu, y buddion i'r Llyfrgell, natur y cynnig ag oblygiadau i'r Llyfrgell. Mae'r cynllun yn rhannu i bedwar piler;

1. Cadwrfa ddigidol gynaliadwy – byddai hyn yn golygu creu, datblygu a chynnal isadeiledd technegol sy'n galluogi data digidol i gael ei gasglu, gadw a'i storio ac yn hygyrch yn y tymor hir. Y Llyfrgell fyddai'n arwain ar hyn, gan ddatblygu ymhellach yr hyn mae'n ei weithredu'n barod
2. Cynnwys a digido - byddai'r piler yma'n canolbwyntio ar sicrhau llif o gynnwys i mewn i'r Gadwrfa. O safbwynt y Llyfrgell byddai cynnwys casgliadau wedi'u digideiddio a chasgliadau digidanedig yn flaenoriaeth a byddai'n cael ei gostio i'r rhaglen. Mae dwy ran y piler yma yn cynnwys catalogio a rhoi mynediad i gasgliad Cymreig y Llyfrgell, fyddai'n ffurfio casgliad sylfaen i'r Gadwrfa, a'r ail ran yn golygu ymestyn allan ag ymgysylltu â chymunedau fel ffynonellau a defnyddwyr cynnwys. Y Llyfrgell fyddai'n arwain ar y ddwy ran.
3. Canolfan Ymchwil Ddigidol - sefydlu canolfan ymchwil ddigidol a fydd, trwy ei ddefnydd o gynnwys y Gadwrfa, yn galluogi profion alffa a beta, ynghyd â dangos gwerth cadwrfeydd digidol trwy gynhyrchu canfyddiadau ymchwil newydd. Bydd y ganolfan hon yn ymgymryd ag ymchwil mewn tri llinyn;
 - i) Cadwraeth deunyddiau digidol
 - ii) Datblygu methodolegau newydd i'w defnyddio
 - iii) Ymchwil ar y data a gasglwydPrifysgol Aberystwyth fyddai'n arwain ar y piler yma.
4. Cymru Ddigidol Hyfedr - datblygu Cymru sy'n hyfedr yn ddigidol trwy raglen o hyfforddiant sgiliau proffesiynol ac ymgysylltu â'r gymuned.

Byddai'r buddion posibl i'r Llyfrgell yn cynnwys;

- Rhoi cyfle i'r Llyfrgell wella ei enw da hyd yn oed ymhellach fel sefydliad gwybodaeth ddibynadwy o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol sydd â rôl allweddol yn cefnogi ymchwil ac arloesi yn y byd academaidd a thu hwnt
- Arloesi, ymgryfhau a datblygu isadeiledd craidd a chyflawni ein gweledigaeth strategol bresennol o sefydlu Cadwrfu Ddigidol Ddibynadwy
- Gwella mynediad a mwy o ddefnydd o gasgliadau cenedlaethol a chasgliadau eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Datblygu a chryfhau cysylltiadau â'r cymunedau ymchwil
- Darparu cyfle i wasanaethu a dylanwadu ar ystod o sectorau, (gan gynnwys yr holl sectorau addysg, busnes, gwasanaethau cyhoeddus, y llywodraeth a'r cyhoedd) a chyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddiogelu cof ein cenedl a'i hallbwn deallusol

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr fod hyn yn gynllun cyffrous ac un ddylai'n sicr fwydo i mewn i'r Cynllun Strategol nesaf. Mae yna botensial enfawr i'r cynllun yn enwedig gyda chwricwlwm addysgol newydd ar y gorwel. Rhaid ceisio adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud eisoes ac edrych ymlaen a cheisio paratoi ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Bwrdd y dylid sefydlu panel mewnol yn cynnwys aelod o'r bwrdd i gefnogi Owain a'i gynorthwyo i baratoi papur i fynd a'r cynllun ymlaen i'r cam nesaf. Enwebwyd Quentin Howard ac ef fydd yn hwyluso/cadeirio cyfarfodydd y panel. Mae croeso i Ymddiriedolwyr eraill ymuno â'r Panel, ond wrth wneud hynny, bydd yn rhaid datgan unrhyw fuddiant yn y cynllun.

Dymunodd Steve Williams a Gwilym Dyfri Jones ddatgan budd yn y trafodaethau, y naill fel aelod o Brifysgol Abertawe, a'r llall fel aelod o Brifysgol y Drindod Dewi Sant.

Y cam nesaf fydd mireinio'r cynnig presennol a chynhyrchu costau mwy manwl, a chyflwyno cais manylach i UKRI. Ymhen y rhawg, bydd angen sicrhau cefnogaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, a chyflwyno cynnig 4 tudalen ym mis Ebrill 2020 a fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Gwerthuso UKRI yn Hydref 2020.

Diolchwyd i Owain am ei bapur trylwyr ac addysgiadol, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn edrych ymlaen at weld gweithredu'r camau nesaf trwy gyfrwng y panel fydd yn cael ei sefydlu.

2.4 Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn falch o weld mai dim ond un dangosydd oedd wedi tan berfformio yn y chwarter diwethaf, sef *Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau ar safle'r Llyfrgell*. Gellir priodoli hyn i'r gwaith adeiladu sy'n digwydd ar y safle, sy'n golygu bod llai o ofod ar gael ar gyfer cynnal digwyddiadau.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr os oedd ystadegau pellach ar gael nad oedd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar hyn o bryd, a fyddai o bosib yn fwy ystyrion na rhai o'r dangosyddion presennol. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd, y byddai cyfle, ar ôl cytuno ar y Cynllun Strategol nesaf, i greu set newydd o ddangosyddion mwy ystyrion.

2.5 Cydnabyddiaeth y Llywydd

Ymneilltuodd y Cadeirydd, Meri Huws, o'r gadair ar gyfer yr eitem yma, a chymerwyd y gadair gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd, Pedr ap Llwyd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Trysorydd, Lee Yale- Helms gyflwyno'r papur oedd wedi ei baratoi ar gyfer y cyfarfod.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Tachwedd, penderfyniad yr Ymddiriedolwyr oedd peidio â rhoi tâl cydnabyddiaeth i Lywydd y Llyfrgell, er bod cadeiryddion cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn derbyn tâl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi siom gyda'r penderfyniad ac yn gofyn i'r Ymddiriedolwyr ail ystyried eu penderfyniad. Y rheswm y bu i'r Bwrdd benderfynu yn erbyn rhoi tâl cydnabyddiaeth i'r Llywydd oedd sefyllfa ariannol fregus y Llyfrgell a bod cynnig codiad cyflog i'r staff yn heriol ar y pryd. Erbyn hyn, mae'r Llyfrgell wedi derbyn £400k ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yng nghyllideb eleni, sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa i ddarparu'r codiad cyflog i staff o'r arian wrth gefn sydd gennym. Gofynnodd y Trysorydd felly i'r Ymddiriedolwyr ail ystyried eu penderfyniad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd am gyflwyno'r papur, gan ychwanegu ei fod ef yn awyddus i weld newid ym mherthynas y Prif Weithredwr/Tîm Gweithredol a'r Llywydd o "segur swydd" i fod yn berthynas mwy gweithiol ac un ble mae'r Llywydd yn fwy "presennol" yn y Llyfrgell, ac o fewn cyrraedd y Prif Weithredwr a'i Dîm Gweithredol. Pan hysbysebir y rôl, y tebygolrwydd yw y bydd disgwyliad ymrwymiad amser o 2 ddiwrnod yr wythnos, ac mae hyn yn ymrwymiad trwm, ac ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r deilydd ei gyflawni yn rhad ac am ddim.

O dderbyn cydnabyddiaeth am y rôl fe fyddai natur yr ymroddiad wedyn yn dod yn lled broffesiynol gyda'n disgwyliadau. Ychwanegodd y Cadeirydd fod cael presenoldeb yr Is Lywydd presennol yn rheolaidd yn y Llyfrgell yn gaffaeliad, ac wedi gwella'n sylweddol y berthynas sy'n bodoli rhwng y Swyddogion a'r Tîm Gweithredol.

Ar hyn o bryd, nid oes mecanwaith mewn lle i werthuso'r Llywydd, ond byddai talu cydnabyddiaeth yn gwneud y rôl yn fwy atebol, a byddai gwerthusiad 360 yn cael ei gynnal, gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Pwysleisiwyd hefyd na fyddai'r 2 ddiwrnod o reidrwydd yn cael eu treulio yn y Llyfrgell bob wythnos, gan y byddai disgwyl i'r Llywydd gynrychioli'r Llyfrgell mewn digwyddiadau a chyfarfodydd allanol. Nodwyd y byddai trafodaethau ar union swm y tâl

cydnabyddiaeth yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru, y Trysorydd a'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a'i feincnodi gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Yn dilyn trafodaeth, cynhaliwyd pleidlais a chytunodd yr Ymddiriedolwyr mewn egwyddor i dalu cydnabyddiaeth i'r Llywydd, yn amodol ar weld y disgrifiad rôl a'r mesurau perfformiad, sy'n cael eu paratoi gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Cafwyd 8 pleidlais o blaid, a 3 yn atal.

Nododd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yn y fan yma y byddai cyfnod Rhodri Glyn Thomas fel Llywydd yn dirwyn i ben ar 31 Mawrth 2020, a'i bod yn fwriad gofyn i Lywodraeth Cymru ymestyn rôl Meri Huws yn y swydd tan y byddai Llywydd newydd wedi ei benodi/phenodi.

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ei adroddiad, gan amlygu'r canlynol;

Adolygiad Teilwredig

Mae'r Is Lywydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wedi gweld drafft cychwynnol o'r adroddiad. Mae nifer o negeseuon positif yn yr adroddiad ac roedd y ddau yn hapus gyda'r cyfeiriad mae'r adroddiad yn ei gynnig i'r Bwrdd. Pan fydd drafft terfynol wedi ei gwblhau, bydd yn cael ei rannu gyda'r Ymddiriedolwyr a bydd cyfle i'w drafod yn y cyfarfod arbennig ar 20 Mawrth.

Strategaeth 2021 – 2026

Yn ogystal â phrif Strategaeth y Llyfrgell, mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu Strategaeth Ryngwladol a Strategaeth Ddiwylliannol. Bydd pwyslais y Strategaeth Ryngwladol ar godi arian, tra bydd y Strategaeth Ddiwylliannol yn prynu i mewn i dwristiaeth ddiwylliannol, gyda'r pwyslais ar ddatblygu'r adeilad.

Cyllid Cyfalaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y gall fod yna arian cyfalaf ar gael i'r Llyfrgell yn 2020/21 ar gyfer cyllido prosiectau penodol, ac ar ôl ystyriaeth ofalus, mae'r Tîm Gweithredol wedi penderfynu datblygu tri phrosiect cyfalaf.

- i) Datgarboneiddio'r Llyfrgell
- ii) Datblygu'r cwrt gwag presennol i fod yn ganolfan groeso, oriel a chanolfan masnachu gyda'r bwriad o ddatblygu'r Llyfrgell yn gyrchfan ar gyfer twristiaid diwylliannol
- iii) Storio'r casgliadau

Bydd mwy o fanylion am y prosiectau hyn yn cael eu rhannu wrth iddynt gael eu datblygu'n gynlluniau manwl.

Diolchodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd i Liz Siberry am gadeirio'r Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau, sydd yn trafod yr holl ddatblygiadau sy'n mynd ymlaen yn yr adeilad a'r rhai fydd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn

Canolfan y Mileniwm

Adroddodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei fod yn mynd i gyfarfod Cyfarwyddwr Artistig a Swyddog Datblygu'r Ganolfan ddydd Mawrth nesaf gyda'r bwriad o drafod y posibilrwydd o sefydlu rhyw fath o bresenoldeb yn y Ganolfan.

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Polisi, Strategaeth a Phroses Rheoli Risg

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Tachwedd, gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg graffu ar y Polisi, ac yn dilyn diwygiadau a awgrymwyd gan y Pwyllgor, cyflwynir y fersiwn ddiwygiedig at sylw'r Ymddiriedolwyr heddiw.

Cymeradwywyd y Polisi, Strategaeth a Phroses Rheoli Risg gan y Bwrdd.

4.2. Cofrestr Risg

Amlygwyd y prif risgiau gan David Michael.. Roedd y Bwrdd yn hapus fod mesurau lliniaru priodol mewn lle ar gyfer y risgiau yma, a gweddill y risgiau ar y Gofrestr. Cymeradwywyd y Gofrestr gan y Bwrdd.

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 Cyllideb Ddrafft 2020 - 2021

Diolchodd David Michael i Emyr Phillips am baratoi'r Gyllideb Ddrafft.

Cyflwynwyd y Gyllideb Ddrafft i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 5 Chwefror, a gofynnodd y Pwyllgor am gynnwys asesiad o effaith codiad cyflog 2020/21. Cyflwynir felly'r gyllideb ddiwygiedig at sylw'r Ymddiriedolwyr.

Yn dilyn trafodaeth ar incwm masnachol, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i gymeradwyo'r gyllideb fel drafft yn unig, ar y sail y gall y Llyfrgell dderbyn mwy o arian yn y cyfnod nesaf; bydd cyllideb ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Mehefin.

5.2 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2019

Cyflwynwyd y cyfrifon yma i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 5 Chwefror. Hysbysodd David Michael yr Ymddiriedolwyr nad oes hawl gan y Llyfrgell i gario drosodd mwy na 2% ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, felly mae'n bwysig fod gwariant cyfalaf yn cael ei wneud i sicrhau cyrraedd y targed yma.

Cymeradwywyd y cyfrifon gan yr Ymddiriedolwyr.

5.3 Adroddiad Codi Arian

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yr adroddiad, gan nodi y bydd cyfleoedd codi arian mewn amryw o ddigwyddiadau dros y chwarter nesaf, megis y digwyddiad yn Llundain a Gŵyl y Gelli. Mi fydd taflen cymynroddion newydd a thaflen Cronfa Gasgliadau newydd yn barod ar gyfer y digwyddiadau yma.

Mae sleidiau o gyflwyniad Rhian Evans mewn gweithdy codi arian yn yr Amgueddfa wedi eu cynnwys yn eich pecynnau. Mae'r Llyfrgell yn cael ei chydabod fel sefydliad llwyddiannus ymhlith sefydliadau cyhoeddus o ran cymynroddion, ac i ategu hyn, mae'r Llyfrgell yn aros i dderbyn tua £800k o ystâd Allan Perry. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Teilwredig, mi fydd y Tîm Gweithredol yn ystyried a ddylid caffael gwasanaeth allanol i gynorthwyo gyda chodi arian, neu feddwl am gplysu gyda'r Amgueddfa i gydweithio ar ymgyrchoedd codi arian.

Mewn ymateb i gwestiwn am y Cyfeillion, nododd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd fod y Cyfeillion yn elusen ar wahân; mae bwriad i edrych eto ar ddyfodol y Cyfeillion yn sgil y Cynllun Strategol newydd fydd yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf.

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 31.01.20

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Hugh Thomas, oedd am ganmol safon uchel wasanaeth yr archwilwyr mewnol yn dilyn derbyn y ddau adroddiad cyntaf ganddynt yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 31 Ionawr.

6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 03.02.20

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Liz Siberry, a nododd fod llawer o beth sydd yn y cofnodion wedi ei drafod eisoes, ac nad oedd mwy i'w ychwanegu. Nododd Liz y byddai David Michael, Hugh Thomas a John Fraser yn cyfarfod gyda Hugh James Cyfreithwyr dydd Mawrth

nesaf i drafod y diweddaraf ynghylch yr anghydfod asbestos; yn anffodus, ni fyddai Liz yn medru bod yn bresennol oherwydd ymrwymadau eraill.

Nododd Liz fod y Cwrs Cadwraeth mewn Adeiladwaith a gyfeirir ato yn gyfle gwych i ddathlu'r adeilad, ac mae tipyn o frwdfrydedd ymysg yr adeiladwyr a CADW i gofnodi'r gwaith sy'n mynd ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i John Fraser am sicrhau fod y gwaith wedi cadw at yr amserlen dros y misoedd diwethaf.

6.3 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 05.02.20

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Trysorydd, Lee Yale-Helms, a nododd bod y Gyllideb a'r Cynllun Pensiwn eisoes wedi eu trafod, ac y bydd David Michael yn trafod ymhellach gyda'r actwari ynglŷn â newid telerau'r Cynllun Pensiwn.

Cadarnhaodd y Trysorydd bod y cynnig cyflog i staff wedi ei drafod yn y sesiwn gaeedig y bore hynny, a bod yr Ymddiriedolwyr wedi cytuno'n unfrydol i dalu'r codiad cyflog i staff am 2019/20. Gobeithir y bydd modd talu hwn yng nghyflogau mis Mawrth, yn dilyn derbyn caniatâd Llywodraeth Cymru a phleidlais gan yr undebau.

Bu'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn trafod y diwygiadau i Orchymyn GOWA (Cynigion Cyllideb a Chyrff Dynodedig) 2018, ac fel Cadeirydd Grŵp Cyllid y Cyrff a Noddir, roedd David Michael wedi cydlynu drafftio ymateb y cyrff i'r ymgynghoriad, ac wedi amlygu rhai materion oedd angen sylw. Mae'r Llyfrgell wedi ei gynnwys gyda Sport Wales ac Amgueddfa Cymru (cyrff diwylliannol yn cynnwys elusennau) ar gyfer dynodiad ac aliniad at ddibenion cydgrynhoi, ond mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod yr ymarfer hwn yn fwy cymhleth nag yr oeddent wedi ei ragweld ar y dechrau, ac wedi dweud y bydd gweithgorau'n cael eu sefydlu i ymgysylltu â'r cyrff dan sylw. Awgrymodd y Trysorydd efallai y dylid caffael barn y Comisiwn Elusennau ar y materion yma.

Eglurwyd wrth yr Ymddiriedolwyr fod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol wedi trafod gwaith ychwanegol i ailwampio Oriel Gregynog erbyn mis Mehefin eleni; amcangyfrifir y gost yn £100k. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried awdurdodi'r Llyfrgell i fwrw ymlaen ag ymestyn cwmplas y contractau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau pensaernïol ac adeiladu gyda Darnton B3 a RL Davies Cyf. Yn ddiweddar, bu'r Llyfrgell allan i dendr agored ar gyfer y gwasanaethau sydd eu hangen, rhai pensaernïol ac adeiladu, ac felly gellir dangos bod y cyfraddau tendro yn werth am arian.

Argymhelliad y Pwyllgor oedd gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r gwariant yma, a chytunodd y Bwrdd i'w gymeradwyo, ac awdurdodi'r Llyfrgell i fwrw ymlaen i gwblhau'r gwaith ychwanegol.

Adran 7 Unrhyw fater arall

7.1 Cylch Busnes 2020

Mae hwn wedi ei ddarparu er gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr, i sicrhau fod materion sefydlog yn cael sylw dyledus.

7.2 Darparu papurau'r Bwrdd yn electronig – adborth yr aelodau

Yn dilyn cais gan rai aelodau, gosodwyd papurau'r cyfarfod yma'n electronig yn ardal neilltuol y Bwrdd. Roedd hyn yn foddhaol i'r rhai oedd wedi dewis derbyn y papurau yn y ffurf yma, ond gofynnwyd a fyddai modd i'r Ymddiriedolwyr gael y gallu i newid eu cyfrineiriau.

7.3 Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad

Gan nad oes cadeirydd sefydlog gan y Pwyllgor yma ar hyn o bryd, gofynnwyd a byddai un o'r aelodau yn fodlon ymgymryd â chadeirio'r cyfarfod ar 28 Chwefror. Nododd Eleri Twynog Humphries y byddai'n fodlon cadeirio, ond byddai'n cadarnhau hynny gyda Chlerc y Bwrdd yr wythnos ganlynol.

Diolch a Ffarwelio

Mae tymhorau Iwan Davies a Richard Houdmont yn dirwyn i ben ar 29 Chwefror, a diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu gwasanaeth dros y pedair blynedd flaenorol. Mae'r ddau hefyd wedi gwasanaethu ar Bwyllgorau'r Bwrdd, Iwan fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol, a Richard fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a hefyd yn ddiweddar fel cadeirydd yr Is Grŵp Codi Arian.

Dyma hefyd fyddai cyfarfod olaf Rhodri Glyn Thomas fel Llywydd, ond mae Rhodri wedi ymddiheuro nad yw'n medru bod yn bresennol. Mi fydd Rhodri yn ymuno gyda'r Bwrdd am swper ar noson 30 Ebrill, fydd yn gyfle i ddiolch iddo am ei gyfraniad yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mi fydd cyfle'r noson honno hefyd i ddiolch yn ffurfiol i Iwan Davies a Richard Houdmont am eu cyfraniad hwythau.

**** DIWEDD Y CYFARFOD ****